Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Foel Gron
Mynytho
Pwllheli
Gwynedd
LL53 7RN

14/10/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Hydref 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Foel Gron yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu dogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn profiadau dysgu cyfoethog yn yr ardaloedd allanol

- Gyda chefnogaeth frwd y pennaeth, mae staff yn cydweithio'n effeithiol er mwyn gwella profiadau dysgu'r disgyblion yn ardaloedd allanol yr ysgol.
- Mae'r athrawon yn cynllunio'r ddarpariaeth yn fwriadus i gefnogi disgyblion i ddatblygu ystod eang o fedrau mewn gweithgareddau cyfoethog yn yr ardaloedd allanol ysgogol a deniadol.
- Drwy gydweithio â phartneriaethau lleol, mae staff wedi datblygu gardd yr ysgol yn fwriadus. Trwy hyn, cynigir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella eu medrau llafar Cymraeg a'u medrau gwyddoniaeth.
- Fel rhan o'u themâu tymhorol, mae staff yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion fynd ar deithiau cerdded yn rheolaidd, er enghraifft ar lwybrau arfordirol Pen Llŷn. Mae'r profiadau hyn yn effeithiol wrth ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddaearyddiaeth, hanes a threftadaeth eu hardal leol.
- Mae staff yn gwneud defnydd pwrpasol o adnoddau allanol sydd ar gael yn y gymuned leol er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth i ddisgyblion. Yn ddiweddar,

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

mae'r pennaeth wedi cydweithio'n fwriadus â'r cyngor cymuned er mwyn ychwanegu arwyddion a lluniau yn y parc cyfagos, sy'n galluogi pob disgybl i gael mynediad cynhwysol at yr offer chwarae.

### Gwella dealltwriaeth disgyblion o'r camau nesaf yn eu dysgu

- Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer hybu dealltwriaeth disgyblion o'r camau nesaf yn eu dysgu ac mae'n ei rhannu'n bwrpasol gyda staff a disgyblion.
- Mae athrawon yn defnyddio ystod addas o ddulliau holi sy'n adalw dysgu blaenorol disgyblion ac sy'n eu hannog i feddwl yn ehangach wrth ystyried eu dysgu ymhellach.
- Ar y cyfan, mae adborth athrawon yn adnabod beth mae disgyblion yn ei wneud yn dda ac yn amlygu'r camau nesaf yn eu dysgu yn bwrpasol. Mae disgyblion yn ymateb yn fuddiol i'r adborth ac yn gwella eu gwaith yn briodol.
- Mae llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o'u camau nesaf yn eu dysgu ac yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith er mwyn gwneud cynnydd yn eu medrau.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: [http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6613010](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6613010)

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol